# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 9

AMRYWIOL

*Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol*

### 163 Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yn penodi ei brif weithredwr

(1) Mae adran 8 o Ddeddf 2013 (prif weithredwr) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)—

(a) yn lle "Weinidogion Cymru" rhodder "y Comisiwn";

(b) yn lle "ganddynt" rhodder "ganddo".

(3) Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) Ond os yw swydd prif weithredwr wedi bod yn wag am dros chwe mis, caiff Gweinidogion Cymru benodi prif weithredwr o dan unrhyw delerau ac amodau a bennir ganddynt (gan gynnwys amodau o ran cydnabyddiaeth ariannol, pensiwn, lwfansau a threuliau)."

(4) Yn is-adran (3) ar ôl "prif weithredwr" mewnosoder "o dan is-adran (2A),".

(5) Ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(4) Ni chaiff y prif weithredwr fod—

(a) yn aelod Seneddol;

(b) yn Aelod o'r Senedd;

(c) yn aelod o awdurdod lleol;

(d) yn swyddog awdurdod lleol;

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2022.*
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol. (See end of Document for details)*

(e) yn aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(f) yn gomisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru.

(5) Rhaid i'r Comisiwn, wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru."

(6) Yn adrannau 4(3)(c) a (d) (aelodaeth) ac 11(2)(c) a (d) (comisiynwyr cynorthwyol) o Ddeddf 2013, hepgorer "yng Nghymru".

## 164 Cyfarwyddydau o dan adran 48 o Ddeddf 2013

(1) Mae adran 48 o Ddeddf 2013 (cyfarwyddydau a chanllawiau ynghylch adolygiadau o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)—

(a) ym mharagraff (a) yn lle "(gan gynnwys, pan fo'r Comisiwn wedi gwneud argymhellion neu gynigion iddynt, adolygiadau pellach)" rhodder "(ni waeth a fyddai gan y Comisiwn y pŵer, neu y byddai'n ddarostyngedig i ddyletswydd, o dan yr amgylchiadau, i gynnal yr adolygiad ai peidio)";

(b) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) pan fo'r Comisiwn wedi gwneud argymhellion neu gynigion i Weinidogion Cymru, i gynnal adolygiad pellach o dan y Rhan hon,

(ab) i roi'r gorau i gynnal adolygiad o dan y Rhan hon,";

(c) ym mharagraff (b) yn lle "adran 28" rhodder "y Rhan hon".

(3) Yn is-adran (5)—

(a) yn y testun Saesneg, hepgorer "to" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd;

(b) yn y testun Saesneg, ym mharagraff (a), ar y dechrau mewnosoder "to";

(c) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) i roi'r gorau i gynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31,

(ab) i beidio â chynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31 yn ystod cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd,";

(d) yn y testun Saesneg, ym mharagraff (b), ar y dechrau mewnosoder "to".

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol.